Papur Bro Abertawe

# WILIA

RHIFYN 449 HYDREF 2022 | AM DDIM

## YSGOL GELLIONNEN YN DATHLU 25 MLYNEDD!



Eleni rydym yn dathlu 25 mlynedd ers i'r ysgol agor nôl ym mis Medi 1997.

Mrs Linda Gruffudd Mrs Sioned Evans a Mrs Catrin Megan Berntsen oedd ein staff gwreiddiol bryd hynny, gydag Mrs Audrey Jones fel ysgrifenyddes yr ysgol

.

-Eleri Wyn Mackey, Athrawes Dosbarth Derbyn, Ysgol Gellionnen




## CAMPWAITH O LYFR

Mae campwaith o lyfr gan John Hugh Thomas, sylfaenydd Côr Bach Abertawe, ac un o arweinwyr byd cerddorol Abertawe, yn olrhain hanes John Squire, y cerddor a'r artist .

Banciwr o Gernyw oedd John Squire, ond i ba dref bynnag yr âi, byddai'n brysur yn arwain grwpiau cerddorol, a hefyd yn perfformio ar y ffidil, ac yn peintio.

Un nod llyfr JHT yw profi nad oedd ynysoedd Prydain yn anialwch cerddorol yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, fel yr honnwyd gan rai. Aeth John Squire ati i ddatblygu corau a cherddorfeydd yng Nghaerwysg, Bryste a mannau eraill yn gwbl lwyddiannus.

Daeth John Squire i weithio mewn banc yn WInd St., Abertawe yn 1883, ond roedd eisoes wedi canu'r ffidl mewn cerddorfa pan berfformiwyd y Meseia yng nghapel Pant-teg, Ystalyfera, ar y 10fed o Ionawr 1863.

Roedd y perfformiad hwnnw'n cynnwys côr o 400 o dan arweiniad Ivander (William Griffiths) a chanwyd yr oratorio bedair gwaith, gan gynnwys Hebron Clydach, Bethesda Abertawe a Soar Castell-nedd.

Cyn i John Squire gyrraedd Abertawe roedd Joseph Parry eisoes yn brysur yn y dref, yn cynnal cyngherddau, ac yn datblygu coleg cerdd. Roedd sawl côr wedi cychwyn yma hefyd, gan gynnwys Côr Philharmonig Abertawe (1871), Cymdeithas Oratorio Abertawe (1874), Cymdeithas Gorawl Abertawe (1875) a Chymdeithas Gorawl y Tabernacl (1876) ymysg eraill.

Aeth John Squire ati'n ddyfal i gyfrannu i fywyd cerddorol y dref, a threfnu chyngherddau, weithiau'n llai llwyddiannus na Joseph Parry. Ond roedd ganddo gysylltiad ag Adelina Patti, a chyda theulu cerddorol iawn, cyfrannodd John Squire yn helaeth i'r dref, cyn gadael i Lundain yn 1894.

Mae gan John Hugh Thomas awgrym na lwyddodd John Squire yn Abertawe fel y gwnaeth mewn trefi eraill. Tybed a oedd wedi gwir werthfawrogi diwylliant cerddorol y capeli y pryd hwnnw?
Erbyn heddiw mae'n bosibl mai lluniau dyfrliw John Squire yw ei gyfraniad mwyaf parhaol i'r celfyddydau. Roedd yn feistr ar y grefft, a pheintiodd nifer helaeth o luniau o Gernyw, ac o sawl rhan o Gymru.



Roedd ganddo egni rhyfeddol, mae'n amlwg. Darlithiai ar gerddoriaeth ac arlunio, a'r cyfan uwchben ei waith yn y banc.
Diolch i John Hugh Thomas am godi llen ar gyfnod arbennig yn hanes cerddorol Abertawe, ac am ddod â John Squire i sylw.

The Best in Sound and Form and Hue, Y Lolfa, £14.99

## CLWB DARLLEN TŶ TAWE

Pawb wedi mwynhau mas draw yng nghyfarfod cyntaf y Clwb Darllen - trafodaethau diddorol a chwmni da!
Beth am ymuno yn y cyfarfod nesaf?
Nos Lun, 10/10/22
Llyfr y mis - 'Capten' gan Meinir Pierce Jones



## CÔR TŶ TAWE'N AILGYCHWYN!

Dwy flynedd a hanner yn ôl cynhaliwyd ymarfer llawn diwethaf Cor Ty Tawe. Daeth rhai o'r côr at ei gilydd cyn y Nadolig i ganu yng ngwasanaeth Capel Gomer yn Mount Pleasant, ond ar wahân i hynny mae dwy flynedd a hanner wedi mynd heibio.
Yn ystod y cyfnod yma gwnaeth Helen Gibbon a John Evans ymddeol. Braf felly oedd ailgychwyn gydag Alpha wrth y piano a nifer o aelodau newydd.
Bydd y côr yn cwrdd yn Nhy Tawe bob nos Fercher am 7.
Mae croeso mawr i aelodau newydd, yn enwedig baswyr ac altos.
-Heini Gruffudd



## NEWYDDION O DREFORYS

Cynhaliwyd Swper Cynhaeaf y Gymdeithas yng Nghlwb Golff Treforys. Yn dilyn y pryd blasus roedd adloniant yng ngofal Huw Dylan y canwr gwerin a'i ferched Heledd a Mirain. Cafwyd amrywiaeth o gyflwyniadau lleisiol ac offerynnol gan y tri, gydag ychydig o glocsio gan y ddwy ferch, a sgwrsio diddorol gan Huw Dylan rhwng yr eitemau.Ymunodd yr aelodau yn y canu gyda chyfraniad David Matthews yn gofiadwy.
Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Gymdeithas yn Festri'r Tabernacl, SA6 6BR nos Iau Hydref 20fed am 7.00y.h.. Y darlledwr adnabyddus Dewi Llwyd yw'r siaradwr. Roedd ei dad, y Parchg. Lloyd Williams yn weinidog gyda'r Bedyddwyr yn Nhreforys ac roedd Dewi yn ddisgybl yn Ysgol Gymraeg Lon Las am gyfnod. Felly, edrychwn ymlaen at ei groesawu i dre ei blentyndod. Croeso hefyd i ddarllenwyr " Wilia."

-neges gan David Gwyn John

## GWEITHGAREDDAU I SIARADWYR NEWYDD




Mae Menter Iaith Abertawe yn cynnig y ddwy weithgaredd yma yn wythnosol i siaradwyr newydd.
Mae'r caffi yn cwrdd bob bore Sadwrn 10-12 yn Nhŷ Tawe tra bod y Cylch Clebran yn cwrdd dros Zoom bob bore Mercher am 11yb.

Cysylltwch â datblygu@menterabertawe.org am wybodaeth bellach.



## 'DYN HAEARN'



Na, nid o'r oes haearn. Mae gan Abertawe 'Ddyn Haearn' newydd. Mae e'n gyfarwydd iawn i sawl un yn Nhy Tawe - bu'n helpu'n aml y tu ôl i'r bar, a gwnaeth waith adeiladu mawr yno yn ystod yr adnewyddu diweddar.

Aled Bryn yw e, sy'n gyn ddisgybl Ysgol Gyfun Gwyr. Fe gyflawnodd e her y 'dynion haearn' yn Ninbych y Pysgod wythnos diwetha. Roedd rhaid nofio yn y môr am 2.5 milltir. Roedd y môr yn arw iawn, a daeth y bad achub i helpu sawl un.

Y gamp nesa oedd seiclo 112 milltir o gwmpas Sir Benfro.

Fel pe bai hynny ddim yn ddigon o her, y gamp olaf oedd rhedeg marathon cyfan, 26 milltir.

Dechreuodd Aled am 7 bore. Roedd rhaid gorffen erbyn hanner nos i dderbyn y medal. Llwyddodd Aled i orffen gyda hanner awr i sbario, a llydan oedd ei wên wrth dderbyn ei fedal.

-Heini Gruffudd

## MYNWENT EGLWYS BETHEL SGETI

Mae grwp o drigolion lleol yn Sgeti wedi bod yn cwrdd i drafod eu gofidiau am fynwent eglwys Bethel. Mae'r fynwent pedair erw ar werth ar hyn o bryd, ynghyd â'r ty capel a'r capel.

Mae'r eglwys wedi wynebu cost o ryw £15,000 y flwyddyn i ofalu am y fynwent. Yn y fynwent mae beddau rhai Cymry amlwg, gan gynnwys y cenhadwr Griffith John a'r prifathro Pennar Davies a'i wraig Rosemary.

Yn ddiweddar mae aelodau'r capel wedi cydaddoli gydag aelodau'r Trinity, yn y Trinity, sydd yn yr un ofalaeth. Mae'r gweinidog, y Parch Jill-Hailey Harries hefyd yn gofalu am eglwys y Tabernacl, Treforys.

Mae gwasanaeth Cymraeg bob bore Sul yn y Trinity am 10.30, ac mae croeso i bawb. Ddechrau Medi derbyniwyd Hannah Sams a Gwydion yn aelodau i eglwys Bethel.



-Heini Gruffudd

## Y GYMRAEG YN YSGOL GYFUN TREGŴYR

Rwy'n athrawes Gymraeg yn Ysgol Gyfun Tregŵyr ac yn gyfrifol am hybu dwyieithrwydd a'r ethos Cymreig ar draws yr ysgol. Mae'r ysgol wedi mynd o nerth i nerth y flwyddyn academaidd hon. Rydym wedi ennill dwy wobr Siarter Iaith (Efydd ac Arian) o fewn un flwyddyn academaidd sydd wedi helpu cryfhau'r ethos Cymreig a gwella'r defnydd o'r Gymraeg ar draws yr ysgol. Mae agweddau'r staff a'r disgyblion tuag at y Gymraeg wedi datblygu'n llawer oherwydd ein bod wedi darparu gweithgareddau cyfoethogi, Welsh Wednesdays a chlybiau Cymraeg.

Hefyd, mae ein Criw Cymraeg wedi cydweithio gyda'r ysgolion cynradd er mwyn creu fideos am hanes yr ardal sydd wedi helpu addysgu'r gymuned am eu hanes lleol.

Ni yw'r ysgol uwchradd gyntaf yn y Sir i ennill Gwobr Arian, f elly y flwyddyn academaidd nesaf, rydym yn mynd i gydweithio gydag ysgolion uwchradd eraill yn Sir Abertawe er mwyn eu helpu nhw i ennill Gwobr Arian. Ers mis Medi, rydym wedi cyflawni llawer o lwyddiant ynglŷn â hyrwyddo a datblygu Cymreictod, yr ethos Cymreig a dwyieithrwydd. Felly, byddem yn ddiolchgar iawn pe bai gwaith caled ein Criw Cymraeg yn cael ei gydnabod.

-neges gan Ellie Thomas, athrawes Gymraeg a chydlynydd Cymreictod yn Ysgol Gyfun Tregŵyr.



Llun: dathliadau Diwrnod Owain Glyndŵr yn Nhregŵyr. Gig gan Mei Gwynedd wedi'i drefnu gan Fenter Iaith Abertawe.



# BWRLWM BRYN TAWE!

Cafwyd llu o weithgareddau ar ddechrau'r flwyddyn eleni er mwyn hyrwyddo'r defnydd o Gymraeg ymysg ein disgyblion. Braf oedd gallu mynd â disgyblion blwyddyn 7 fesul dosbarth i Lanmadog am daith breswyl. Dyma gyfle gwerthfawr iddynt gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg. Aethpwyd i'r traeth i chwarae pêl-droed a rownderi. Cafwyd gweithdy gan Fenter Iaith Abertawe. Gwledd o selsig, bîns a sglods a chyfle i dostio malws melys a chwisiau cyn gwely.



Cafodd disgyblion blwyddyn 7 hefyd y cyfle i fod yn rhan o gig Diwrnod Owain Glyndwr yng nghwmni criw o ddisgyblion blwyddyn 7 Ysgol Gyfun Gŵyr. Mei Gwynedd oedd yr artist ac roedd y disgyblion wrth eu boddau'n dawnsio a chyd-ganu. Daeth Mei Gwynedd eto i'r ysgol er mwyn cynnal gweithdy roc. Criw TGAU Cerddoriaeth blwyddyn 11 a gafodd y cyfle i fanteisio ar y profiad hwn. Cafwyd perfformiad safonol gan y disgyblion ar ddiwedd y dydd. Diolch yn fawr i Mei Gwynedd ac i Fenter Iaith Abertawe am gydlynu'r gweithgareddau.

-Heledd Clarke, cydlynydd Cymreictod Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe

Lluniau: Gig Mei Gwynedd fel rhan o ddathliadau Diwrnod Owain Glyndŵr

## ETHOL PRIF SWYDDOGION YM MRYN TAWE


Eleni ymgeisiodd saith disgybl am rolau swyddogion. Bu'n rhaid i bob un gyflwyno llythyr cais a geirdaon ac yna rhoi anerchiad. Yn dilyn y bleidlais braf oedd cael cyhoeddi mai'r ddau brif swyddog ydy Anest Cunliffe a Morgan Davies, a'r 5 uwch swyddog ydy Dylan Fulford, Megan Jones, Marcus O'Brien, Charlie Thomas a Rebecca Thomas. Edrychwn ymlaen at weld eu cyfraniad i fywyd yr ysgol yn y rolau hyn.

-Catrin Lyall, is-bennaeth y Chweched, Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe





## DIWRNOD RHYNGWLADOL HEDDWCH A DIWRNOD COFIO WALDO 2022




Ar gyfer cofnodi Diwrnod Heddwch Rhyngwladol 2022 a Diwrnod Coffa Waldo gwnaeth criw o ddisgyblion Bryn Tawe, dan arweiniad Miss Meinir Jones, baratoi'r cyflwyniad hwn yn trafod heddwch a'r angen am heddwch a chydweithio.
Gallwch wylio'r fideo ar sianel YouTube Ysgol Bryn Tawe.

-Meinir Jones, Pennaeth yr Adran Gymraeg



# PROSIECT CERDDORIAETH MENTER ABERTAWE YN DECHRAU

Cychwynnodd prosiect newydd Menter Iaith Abertawe yn ystod mis Medi gyda sioeau gan Mei Gwynedd a Wigwam yn Nhŷ Tawe, yn ogystal â Chroma a SYBS yn fyw o'r oriel Mission.

Bydd y prosiect yn parhau yn ystod mis Hydref gyda sioeau gan N'Famady Kouyaté, Breichiau Hir, Bryn Fôn, Worldcub, a mwy. Mae'r digwyddiadau hyn yn rhedeg ochr yn ochr gyda'r Clwb Cerddoriaeth newydd i bobl ifanc 11-18, a fydd yn rhedeg yng Nghanolfan Tŷ Tawe ar bob nos Iau yn ystod mis Hydref.

Llun uchod: Mei Gwynedd, gig Tŷ Tawe 16/09/22 Stay Focused Photography.
Lluniau dde: Gig yn yr Elysium Gallery, Stay Focused Photography





## GWEITHDAI YSGOL ROC MEI GWYNEDD

Cawsom y pleser o drefnu gweithdai Ysgol Roc gyda Mei Gwynedd ar gyfer disgyblion ysgolion cyfun Gymraeg Bryn Tawe a Gŵyr mis diwethaf.

Cafodd y disgyblion y cyfle i ffurfio band, ysgrifennu a threfnu cân eu hunain, cyn ei pherfformio o flaen disgyblion blwyddyn 7.

Cyfle euraidd i'r disgyblion a phawb wedi mwynhau'n fawr!



11-18? Diddordeb mewn datblygu eich sgiliau cerddorol, chwarae gigs, ac efallai ffurfio band newydd? Ymunwch gyda'n Clwb Cerddoriaeth newydd!





Cofrestru:http://bit.ly/archebuiac
Gwybodaeth bellach: dafydd@menterabertawe.org


# RHAGLEN LAWN GIGS TŶ TAWE

## HYDREF-RHAGFYR 2022

6.10 – N'famady Kouyate + Tom Emlyn (COPR)
8.10 – Gafael Tir (Tŷ Tawe)
15.10 – R*E*P*E*A*T: Breichiau Hir + The Night School (Tŷ Tawe)
21.10 – Bryn Fôn + Derw (Tŷ Tawe)
29.10 – Worldcub + Awst (The Bunkhouse)
4-6.11 – Gŵyl Ymylol Abertawe
18.11 – Burum (Tŷ Tawe)
24.11 – NAWR: Ffrancon + Sachasom (Tŷ Tawe)
3.12 – HMS Morris + Ynys (Bunkhouse)
8.12 – Gareth Bonello + Lowri Evans (COPR)


Tocynnau:[www.ticketsource.co.uk/menter-iaith-abertawe](www.ticketsource.co.uk/menter-iaith-abertawe)










Mae Gafael Tir yn sioe ddwyieithog ac felly'n addas ar gyfer siaradwyr newydd!




Diolch yn fawr i'n cyfranwyr ar gyfer rhifyn Hydref.

Menter Iaith Abertawe sydd nawr yn coladu straeon Wilia. Plîs danfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr ar gyfer rhifyn Tachwedd erbyn Hydref 28ain trwy ebostio Anys at:

**datblygu@menterabertawe.org**

Neu anfonwch eich lluniau/straeon at dudalen Facebook Wilia.

CYMRAEG
Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government